ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	24 Medi 2014
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706451
TESTUN:	Polisi a Gweithdrefn Diwygiedig Pwyntiau Cosb Arfaethedig

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Cyflwyno Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig i'r Aelodau i'w ystyried.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 I'r Aelodau ystyried cymeradwyo polisi a gweithdrefn pwyntiau cosb diwygiedig i sicrhau gwelliannau pellach mewn safonau ar gyfer Perchnogion Cerbydau Hacni, Gyrwyr a Cherbydau a Gweithwyr, Gyrwyr a Cherbydau Hurio Preifat.

3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod Swyddogion wedi cyflwyno Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ym mis Mehefin (gellir gweld cofnodion y cyfarfod gyda phapurau'r pwyllgor). Yn wyneb y pryderon a godwyd gan y sector tacsis a'r ymateb gwael i'r ymgynghoriad, roedd yr aelodau'n teimlo bod y cynigion angen ystyriaeth fwy manwl pellach cyn i bolisi terfynol gael ei gymeradwyo.

3.2 Felly penderfynodd yr Aelodau i alw cyfarfod arbennig i ystyried y Cynllun a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb yn fanwl gan gymryd i ystyriaeth y fasnach tacsis a hurio preifat. Hefyd, awgrymodd un Aelod y gall y mater hwn gael ei gynnwys yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Medi.

3.3 Ers y cyfarfod diwethaf ym mis Mehefin, mae Swyddogion wedi adolygu'r Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb, ynghyd â rhestr o doriadau/troseddau a gwnaed mân newidiadau e.e. ailgyfrif y nifer o

bwyntiau a gostwng y nifer o doriadau trwy roi rhai toriadau yn yr un grŵp lle bo'n briodol. Cefnogi cynnwys pob toriad o fewn y Polisi, mae Swyddogion hefyd wedi ychwanegu cyfiawnhad i bob toriad.

3.4 Ystyriwyd barn deilwyr trwydded hefyd yn dilyn gweithdy diweddar gydag Aelodau a deilwyr trwydded.

3.5 Er gwybodaeth i'r Aelodau nid yw'r prif bolisi a gweithdrefn ddiwygiedig wedi newid ers i'r Swyddogion ei gyflwyno ym mis Mehefin. Mae'r unig newidiadau a wnaed yn yr atodiad (rhestr o doriadau)

3.6 Efallai y bydd yr Aelodau'n cofio mai un o argymhellion y Swyddog (yn adroddiad Mehefin 2014) oedd diwygio'r cynllun i redeg dros gyfnod o 12 mis yn hytrach na 24 mis. Y rheswm dros yr argymhelliad hwn oedd bod y busnes yn teimlo ei fod yn annheg gan y byddai yna fwy o berygl y byddai deilwyr trwydded yn cael eu cyfeirio at y pwyllgor ac yn wynebu sancsiynau pellach.

3.7 Byddai'r Swyddogion nawr yn awgrymu bod yr argymhelliad hwn yn cael ei wrthdynnu oherwydd ar ôl adolygu'r cynllun, ynghyd ag Aelodau a chynrychiolwyr masnach, cydnabuwyd mai'r cylch mwyaf effeithiol fyddai un 24 mis ac mae'r pwyntiau wedi eu gosod yn briodol i'r cynllun fod fwyaf effeithiol.

3.8 Gellir gweld y Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig arfaethedig (ynghyd â rhestr o doriadau) yn Atodiad A.

3.9 Os byddai'r Aelodau o blaid cymeradwyo'r Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb, gofynnir am gyfnod gras o fis o weithredu'r cynllun i gyflwyno pwyntiau cosb. Yn ystod y cyfnod hwn, byddai Swyddogion yn rhoi tystiolaeth a chanllawiau i ddeilwyr trwydded sy'n torri'r polisi arfaethedig.

4. YMGYNGHORI

4.1 Mae ymgynghoriad pythefnos pellach ar y Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig wedi'i gynnal gyda'r holl ddeilwyr trwydded. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol eu bod wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwnnw hefyd.

4.2 O ganlyniad i'r ymgynghoriad pellach, derbyniodd y Swyddogion un sylw ysgrifenedig, a welir yn Atodiad B (trafodwyd cynnwys sylwadau yn faith yn y gweithdy ac mae diwygiadau wedi eu gwneud yn unol â hynny.

4.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad, gwahoddodd y Swyddogion unrhyw ddeilwyr trwydded â diddordeb i weithdy ar 24 Gorffennaf 2014, i drafod y Polisi a

Gweithdrefn Pwyntiau Cosb yn fanwl. Gwahoddwyd yr Aelodau i'r gweithdy hefyd.

4.4 Er gwybodaeth i'r Aelodau, roedd tri Gweithredwr wedi mynychu'r gweithdy ynghyd â phedwar Aelod.

4.5 Yn ystod y gweithdy trafodwyd pob tor-polisi yn fanwl ynghyd â'r pwyntiau cosb arfaethedig i'w gosod. Lle teimlwyd bod angen diwygio'r pwyntiau cosb arfaethedig, roedd y penderfyniad i ddiwygio, yn y rhan fwyaf o achosion, yn unfrydol.

5. ARGYMHELLION

5.1 Aelodau i ystyried cymeradwyo'r Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig yn Atodiad A, ac wrth wneud hynny cytuno i ddisodli'r Cynllun Pwyntiau Cosb presennol yn y "Llyfr Glas".

5.2 Gweithredu'r cynllun o 1 Tachwedd 2014, gyda chyfnod gras o fis cyn i orfodi'r cynllun gael ei gyflwyno.